TGAU

# CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol a Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 4 - Medi 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru.pdf sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a Gymeradwyir i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg sy'n nodi'r gofynion penodol i'r pwnc ar gyfer cymwysterau TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Cywiro hyd y cyflwyniad llafar | 29 |
| | Diweddaru gwybodaeth dechnegol | 32 |
| 3 | Newid i'r rheol derfynol | 32 a 33 |
| 4 | Newid i'r rheol derfynol yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr ôl 16. | 33 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS


CRYNODEB O'R ASESU ........ 5

1 CYFLWYNIAD ........ 7

- 1.1 Nodau ........ 7
- 1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 7
- 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant ........ 8
- 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad ........ 9
- 1.5 Defnydd o iaith ........ 9
- 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 9

2 CYNNWYS Y PWNC ........ 10

- Y Golofn 'Gwybodaeth Bellach' ........ 10
- Integreiddio Iaith a Llenyddiaeth ........ 10
- Uned 1 ........ 11
- Uned 2 ........ 13
- Uned 3 ........ 15
- Uned 4a (Cymhwyster Gradd Unigol yn unig) ........ 17
- Uned 4b (Cymhwyster Dwyradd yn unig) ........ 19
- Uned 5 (Cymhwyster Dwyradd yn unig) ........ 21
- Uned 6 (Cymhwyster Dwyradd yn unig) ........ 23
- Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 25

3 ASESU ........ 26

- 3.1 Amcanion asesu a phwysoli ........ 26
- 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad ........ 28

4 CAMYMDDWYN ........ 31

5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 32

- 5.1 Cofrestru a dyfarnu ........ 32
- 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 34

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 36


© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG

# CRYNODEB O'R ASESU

<table>
<tr><td colspan="2">Uned 1: Naratif<br>Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud)<br>30% o'r cymhwyster gradd unigol (15% o'r cymhwyster dwyradd)<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>60 marc</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd dysgwyr yn astudio un nofel o ddewis o chwech.<br>Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau sydd wedi'u strwythuro ar y testun y maent wedi'i astudio.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Uned 2: Hunaniaeth<br>Asesiad di-arholiad: (5 awr a 15 munud)<br>Trafodaeth Grŵp<br>20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o'r cymhwyster dwyradd)<br>Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br>40 marc</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd dysgwyr yn astudio testun(au) gweledol a'u hasesu mewn grwpiau o 3.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Uned 3: Agweddau<br>Asesiad di-arholiad: (12 awr a 35 munud)<br>Tasg Ysgrifenedig a Thasg Lafar Unigol<br>20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o'r cymhwyster dwyradd)<br>Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br>60 marc</td></tr>
<tr><td colspan="2">Caiff y dysgwyr eu hasesu ar ddwy dasg:<br>Tasg 1 – cerddi – gwerthfawrogi a chymharu 30 marc<br>Tasg 2 – cyflwyniad unigol ar sail ymchwil 30 marc</td></tr>
<tr><td>Cymhwyster Gradd Unigol</td><td>Cymhwyster Dwyradd</td></tr>
<tr><td>Uned 4a: Cysylltiadau Ieithyddol (Gradd Unigol)<br>Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud)<br>30% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>60 marc</td><td>Uned 4b: Cysylltiadau Ieithyddol (Dwyradd)<br>Arholiad Ysgrifenedig: (2 awr)<br>22.5% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>90 marc</td></tr>
<tr><td>Darllen – asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig. Bydd yr adran hon yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun ar lefel gair, brawddeg a thestun.<br>Ysgrifennu – un dasg ysgrifennu o ddewis o ddau.</td><td>Darllen - asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig. Bydd yr adran hon yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun ar lefel gair, brawddeg a thestun.<br>Ysgrifennu – dwy dasg. Bydd un yn orfodol a'r llall yn ddewis o ddau.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | **Uned 5: Ymateb a Chreu**<br>**Asesiad di-arholiad:**<br>**Tasg 1 – 5 awr a 10 munud**<br>**Tasg 2 – un wythnos o baratoi a 3 awr i'w gwblhau**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**Trafodaeth Grŵp a Thasg Ysgrifenedig**<br>**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC**<br>**60 marc** |
| | Caiff y dysgwyr eu hasesu ar **ddwy** dasg:<br>Tasg 1: Ymateb a rhyngweithio.<br>Tasg grŵp yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi ysgrifenedig a/neu weledol ddarperir gan CBAC i symbylu trafodaeth.<br>**40 marc**<br><br>Tasg 2: Ysgrifennu creadigol yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi tasg 1. **20 marc** |
| | **Uned 6: Cyfleu Ystyr**<br>**Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud)**<br>**22.5% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC**<br>**60 marc** |
| | Bydd dysgwyr yn astudio **tair** stori fer.<br>Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau sydd wedi'u strwythuro ar **un** o'r straeon byrion.<br>Bydd dysgwyr yn cymharu'r stori fer gyda thestun llenyddol neu anllenyddol. |

Cymhwyster unedol, di-haen yw'r TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Er mwyn ennill y Gradd Unigol, mae'n rhaid i ymgeiswyr sefyll Uned 1, Uned 2, Uned 3 ac Uned 4a.

Er mwyn ennill y Dwyradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr sefyll Uned 1, Uned 2, Uned 3, Uned 4b, Uned 5 ac Uned 6.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael o gyfres haf 2026.

Bydd Uned 4b ar gael am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Bydd Uned 4a, Uned 5 ac Uned 6 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2027.

Bydd dyfarniad cyntaf y cymhwyster hwn yn haf 2027.

Rhifau Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/5087/0 (Gradd Unigol)
C00/4968/8 (Dwyradd)

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae'n rhaid i'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg gefnogi Dysgwyr i allu:

- gwerthfawrogi sut mae iaith yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas trwy ymgysylltu â thestunau llafar, gweledol ac ysgrifenedig o amrywiaeth o gyfnodau, lleoedd a diwylliannau
- darllen, gwylio a gwrando ar amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
- deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, cyfrwng a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, deall ac ymateb i iaith
- mynegi eu hunain mewn modd eglur, cywir, rhugl a chreadigol wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a defnydd o'r Gymraeg
- Mae'n rhaid i'r cymhwyster hefyd gael ei ddylunio i hybu profiad cadarnhaol a pherthnasol o'r Gymraeg a diwylliannau Cymraeg a Chymreig.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd.

Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol hynny a amlinellir yn rhan ''Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsbynciol a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu ar dudalen 24; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - datblygu eu dealltwriaeth, eu hempathi a'u gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol
  - rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthnasoedd
  - profi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth amrywiol sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach
  - tanio dychymyg a chreadigrwydd.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2], gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
  - datblygu'n holistaidd o ran eu dealltwriaeth a'u defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
  - cymhwyso eu dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol
  - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd
  - datblygu sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith
  - trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd gan gynnwys agweddau cymdeithasol a diwylliannol iaith.

- cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygiad iaith a dewis llenyddiaeth[3], gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - profi ysgogiadau perthnasol, cyffrous, dilys a heriol er mwyn ysbrydoli siarad ac ysgrifennu pwrpasol
  - profi cyfoeth o lenyddiaeth.

## 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

[1] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (gov.wales)
[2] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Egwyddorion cynnydd - Hwb (gov.wales)
[3] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (gov.wales)

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad

Lluniwyd y TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Cymhwyster Gradd Unigol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Lluniwyd y TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Cymhwyster Dwyradd i'w gyflwyno dros gyfnod o 240 – 280 o oriau dysgu dan arweiniad. Cawsant eu llunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

## 1.5 Defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Y Golofn ‘Gwybodaeth Bellach’

Mae’r wybodaeth bellach a ddarperir yn y golofn dde yn defnyddio’r bonion brawddegau canlynol:

- defnyddir ‘dylai dysgwyr allu’ pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth.
- defnyddir ‘dylai dysgwyr ddeall’ pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn hytrach na chymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau.
- defnyddir ‘bydd gofyn i ddysgwyr’ i ddangos gofynion penodol unedau unigol.

Mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn dangos bod yn rhaid addysgu'r cynnwys penodedig ac y gallai fod yn destun asesiad.

## Integreiddio Iaith a Llenyddiaeth

Mae'r cymhwyster hwn yn integreiddio Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Felly, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r rhagdybiaethau canlynol:

- defnyddir y term ‘llenyddiaeth’ yn ei ystyr ehangaf, i ddynodi’r holl ddeunydd ysgrifenedig beth bynnag fo’i ddiben. Ni fwriedir iddo ddynodi gweithiau dychmygus o farddoniaeth neu ryddiaith yn unig.
- bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi'r llenyddiaeth y maent yn ei hastudio o safbwyntiau ieithyddol a llenyddol er mwyn archwilio’r effaith a gânt a/neu sut maent yn creu ystyr.
- fel rhan o'u dysgu, disgwylir i ddysgwyr ystyried agweddau ar yr iaith Gymraeg, gan ddefnyddio llenyddiaeth fel cyfrwng i wneud hyn. Mae angen ystyried geirfa, gramadeg a chystrawen drwy gydol y cwrs, nid yn unig yng nghyd-destun gwaith y dysgwyr eu hunain, ond hefyd yng nghyd-destun y llenyddiaeth a astudir. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg yn cael eu hasesu mewn unedau arholi; bydd cymhwyso sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn cael ei asesu ym mhob uned.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 1

**Naratif**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
30% o'r gradd unigol (15% o'r dwyradd)
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad
- adnabod a gwerthfawrogi arddull yr awdur
- cyflwyno ymateb personol a chreadigol i'r nofel
- ysgrifennu'n glir ac yn ddealladwy.

Anogir dysgwyr i dynnu ar eu dealltwriaeth o sut mae naratif yn cael ei gyfleu trwy astudio nofel, a chymhwyso hyn i'w hysgrifennu eu hunain. Mae'n gyfle i ddysgwyr ddeall sut mae awduron yn cyfathrebu ystyr mewn llenyddiaeth, gan ddefnyddio iaith yn effeithiol i gyflwyno'u syniadau eu hunain. Mae hyn yn paratoi dysgwyr i ddod yn fwy hyderus wrth addasu eu hysgrifennu er mwyn cyfathrebu ystyr yn fwy effeithiol. Bydd astudio naratif yn helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus o Gymru a'r byd trwy werthfawrogi cyd-destunau gwahanol a sut maent yn effeithio ar unigolion a chymunedau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Naratif** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>1.1.1 Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad<br>1.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi arddull awdur<br>1.1.3 Cyflwyno ymateb personol a chreadigol i'r nofel<br>1.1.4 Ysgrifennu'n glir ac yn ddealladwy | |
| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
| 1.1.1 Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad | Bydd gofyn i ddysgwyr astudio **un** nofel o'r dewis canlynol:<br>• **#Helynt** Rebecca Roberts<br>• **Jac** Guto Dafydd<br>• **Llechi** Manon Steffan Ros<br>• **Llyfr Glas Nebo** Manon Steffan Ros<br>• **O Ran** Mererid Hopwood<br>• **Tom** Cynan Llwyd<br><br>(Noder fod gan ganolfannau y rhyddid i ddewis testunau gwahanol ar gyfer carfanau gwahanol o ddysgwyr).<br><br>Dylai dysgwyr allu:<br>• adalw ffeithiau manwl am ddigwyddiadau a chymeriadau nofel wrth iddynt ymateb i wahanol sefyllfaoedd<br>• ymateb yn sensitif a manwl i nofel er mwyn gwerthfawrogi crefft yr awdur wrth lunio'r cynnwys, plot, themâu a'r cymeriadau<br>• trafod cymhelliant awdur wrth ysgrifennu nofel gan gyfeirio at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a'r defnydd o themâu wrth gyfleu syniadau. |
| 1.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi arddull awdur | Dylai dysgwyr allu:<br>• dadansoddi nodweddion ffurf, cynllun ac awyrgylch ynghyd â'r nodweddion arddull a ddefnyddir gan yr awdur<br>• dadansoddi crefft awdur i ddisgrifio cymeriadau, themâu ac awyrgylch golygfeydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol. |
| 1.1.3 Cyflwyno ymateb personol a chreadigol i'r nofel | Dylai dysgwyr allu<br>• arddangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol a gallu cymhwyso'r wybodaeth at eu gwaith creadigol<br>• argyhoeddi'r gynulleidfa ac ennyn diddordeb yn y gwaith<br>• ysgrifennu o safbwynt cymeriad wrth ymateb yn bersonol i ddigwyddiadau. |
| 1.1.4 Ysgrifennu'n glir ac yn ddealladwy | Dylai dysgwyr allu:<br>• ysgrifennu'n gywir, yn eglur a graenus gan ddangos ystod o adnoddau iaith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

### Hunaniaeth

Asesiad di-arholiad
Trafodaeth grŵp: (hyd at 15 munud o hyd)
Testun gweledol: (o leiaf 1 awr o hyd)
20% o'r gradd unigol (10% o'r dwyradd)
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
40 marc

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw:
- gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad
- adnabod a gwerthfawrogi technegau ffilm, a deialog
- datblygu sgiliau llafaredd

Ffocws yr uned fydd ystyried a gwerthfawrogi sut mae'r testun gweledol dewisol yn datblygu a chyfathrebu'r ymdeimlad o hunaniaeth yn unol â'r cwestiwn a ryddhawyd gan CBAC. Gall hyn fod mewn cyd-destun sydd yn ffocysu ar gyd-destunau lleol neu gyd-destunau Cymreig ehangach. Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu 'cynefin' hwythau neu i ddarganfod cyd-destunau newydd ac amrywiol. Bydd astudio Hunaniaeth yn helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion moesegol, sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas hwythau a'r gymdeithas Gymreig ehangach.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Hunaniaeth** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>2.1.1 Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot/naratif a datblygiad cymeriad<br>2.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi technegau ffilm a deialog<br>2.1.3 Datblygu sgiliau llafaredd | |
| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
| 2.1.1 Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot/naratif a datblygiad cymeriad | Dylai dysgwyr allu:<br>• arddangos gwybodaeth am y testun gweledol a chyflwyno tystiolaeth gan gyfeirio at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol, golygfeydd penodol a dyfynnu'n briodol<br>• trafod plot/naratif y testun gweledol<br>• dangos dealltwriaeth a dadansoddi'r cymeriadau<br>• dangos dealltwriaeth o ddatblygiad themâu<br>• trafod sut mae'r agweddau uchod yn cyfrannu at greu hunaniaethau amrywiol.<br><br>Bydd gofyn i ddysgwyr:<br>• gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at 15 munud o hyd<br>• siarad a gwrando mewn grwpiau o 3<br>• ffocysu eu trafodaeth ar hunaniaeth yn y testun gweledol dewisol yn unol â'r cwestiwn a ryddhawyd gan CBAC.<br><br>Bydd gan canolfannau ddewis rhydd o destun gweledol. Dylai'r testun gweledol fod yn awr o hyd o leiaf.<br><br>(Noder fod gan ganolfannau y rhyddid i ddewis testunau gwahanol ar gyfer carfanau gwahanol o ddysgwyr). |
| 2.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi technegau ffilm a deialog | Dylai dysgwyr allu:<br>• adnabod a gwerthfawrogi technegau ffilm gan gynnwys y rhai a nodir isod:<br>   ◦ gwaith a thechneg camera<br>   ◦ cerddoriaeth a sain<br>   ◦ goleuo<br>   ◦ gwisgoedd a cholur<br>• trafod y defnydd o ddeialog<br>• trafod sut mae'r technegau ffilm a'r defnydd o ddeialog yn cyfrannu at greu hunaniaethau amrywiol. |
| 2.1.3 Datblygu sgiliau llafaredd | Dylai dysgwyr allu:<br>• dangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar gydag eraill er mwyn gwerthfawrogi testun gweledol a chadarnhau safbwynt<br>• defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, gyda gramadeg a mynegiant cywir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi testun gweledol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Uned 3

**Agweddau**

Asesiad di-arholiad
Tasg Ysgrifenedig: (500 – 1,500 o eiriau)
Tasg lafar unigol: (hyd at 5 munud o hyd)
20% o'r gradd unigol (10% o'r dwyradd)
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- ymateb i gerddi er mwyn gwerthfawrogi eu cynnwys a'u neges/thema
- adnabod a gwerthfawrogi mesurau ac arddulliau barddol
- cyflwyno ymateb personol i'r cerddi
- dewis gwybodaeth a chyflwyno'n unigol ar lafar.

Mae'r uned yn annog dysgwyr i ymgysylltu ag agweddau beirdd tuag at thema benodol. Bydd modd i ddysgwyr weld sut mae agweddau yn medru newid dros amser ac i werthfawrogi amrywiaeth o arddulliau cyfathrebu barn a gwybodaeth. Bydd modd iddynt hefyd ddatblygu eu barn annibynnol eu hunain trwy'r cyfleoedd ar gyfer siarad ac ysgrifennu. Bydd modd i ddysgwyr ddeall a datblygu empathi tuag at wahanol agweddau, diwylliannau a chredoau i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 Agweddau** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>3.1.1 Ymateb i gerddi er mwyn gwerthfawrogi eu cynnwys a'u neges a'u thema<br>3.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi mesurau ac arddulliau barddol<br>3.1.3 Cyflwyno ymateb personol i'r cerddi<br>3.1.4 Dewis a chyflwyno gwybodaeth ar gyfer cyflwyniad unigol | |
| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
| 3.1.1 Ymateb i gerddi er mwyn gwerthfawrogi eu cynnwys a'u neges a'u thema | Dylai dysgwyr allu:<br>• dangos dealltwriaeth o gynnwys y cerddi o ran geirfa, ymadroddion, tafodiaith, ystyr llythrennol llinellau a dehongli ystyr sydd ymhlyg mewn testun<br>• dethol gwybodaeth berthnasol am gefndir y beirdd a dod i gasgliadau am negeseuon a bwriad y cerddi ac agweddau'r beirdd tuag at y thema<br>• adnabod y modd y mae'r cerddi yn cysylltu â'r thema a gwneud cysylltiadau rhwng llinellau/penillion penodol a'r thema honno<br>• arddangos y sgìl o ddyfynnu neu gyfeirio'n bwrpasol er mwyn cefnogi'r pwyntiau uchod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Bydd gofyn i ddysgwyr ymateb i:<br>• o leiaf 6 cerdd mewn ymateb i thema a osodir gan CBAC. (Bydd dysgwyr yn dewis 3 cerdd i'w gwerthfawrogi a'u cymharu, gan wneud cymariaethau synoptig â'r 3 arall)<br>• cerddi gan o leiaf 3 bardd gan gynnwys 1 bardd G20 ac 1 bardd G21<br>• cerddi caeth, rhydd a phenrhydd.<br><br>(Noder fod gan ganolfannau y rhyddid i ddewis cerddi a/neu feirdd gwahanol ar gyfer carfanau gwahanol o ddysgwyr). |
| 3.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi mesurau ac arddulliau barddol | Dylai dysgwyr allu:<br>• gwneud defnydd hyderus o dermau llenyddol<br>• gwerthfawrogi mesur a nodweddion arddull y cerddi a rhoi sylwadau am eu haddasrwydd i gynnwys a neges y gerdd<br>• meithrin y sgil o ddyfynnu'n bwrpasol er mwyn cadarnhau dealltwriaeth o fesur ac arddulliau. |
| 3.1.3 Cyflwyno ymateb personol i'r cerddi | Dylai dysgwyr allu:<br>• ymateb yn bersonol i'r cerddi a astudiwyd gan gynnig barn am eu cefndir, cynnwys, arddull a neges<br>• ymdrin ag addasrwydd a pherthnasedd y cerddi i'r thema osod ac agweddau'r beirdd tuag ati<br>• ymateb gan ddefnyddio gramadeg a mynegiant cywir. |
| 3.1.4 Dewis a chyflwyno gwybodaeth ar gyfer cyflwyniad unigol | Dylai dysgwyr allu:<br>• ymchwilio'n annibynnol, darllen yn eang a chasglu gwybodaeth am thema osod<br>• ystyried a dod i ddeall safbwyntiau pobl eraill am y thema<br>• ystyried a thrafod dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth<br>• datblygu safbwyntiau personol ar sail tystiolaeth a gesglir<br>• cyflwyno'n hyderus ac yn naturiol gan wneud defnydd cynnil o nodiadau a phwyntiau bwled cryno<br>• arddangos geirfa gyfoethog sy'n berthnasol i'r maes gyda gramadeg a mynegiant cywir<br>• strwythuro pwyntiau mewn modd clir a dealladwy<br>• rhoi ystyriaeth i gynulleidfa drwy amrywio goslef y llais a phatrymau brawddegau er mwyn cynnal diddordeb gwrandawyr<br>• gwneud defnydd o dechnegau rhethregol megis siarad yn drosiadol, defnyddio hiwmor ac eironi er mwyn esbonio safbwynt neu esbonio gwybodaeth<br>• rhoi sylw i gyflymder y siarad a gwneud defnydd o iaith y corff a chyswllt llygad er mwyn cyfleu pwyntiau a chyflwyno gwybodaeth yn ddealladwy.<br><br>Bydd gofyn i ddysgwyr:<br>• siarad am 5 munud (mewn ymateb i'r thema a osodir gan CBAC). |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 4a (Cymhwyster Gradd Unigol yn unig)

**Cysylltiadau Ieithyddol (gradd unigol yn unig)**
Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi
- cyfuno a chrynhoi gwybodaeth
- ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol).

Bydd dysgwyr yn archwilio cysylltiadau ieithyddol rhwng testunau y maent yn eu darllen ac yn eu cynhyrchu yn yr uned hon. Trwy ymateb i amrywiaeth o destunau ac archwilio'r cysylltiadau ieithyddol cynigir cyfleoedd iddynt ddatblygu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau ynghyd â phwrpas testunau. Anogir dysgwyr i ddod yn fwy aeddfed yn eu dealltwriaeth o destunau ac wrth fynegi eu hunain trwy iaith a thrwy hynny i ddod yn gyfathrebwyr effeithiol.

**Meysydd cynnwys**

| **4.1 Cysylltiadau Ieithyddol (gradd unigol yn unig)** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>4.1.1 Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi<br>4.1.2 Cyfuno a chrynhoi gwybodaeth<br>4.1.3 Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol) | |
| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
| 4.1.1 Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi | Dylai dysgwyr allu:<br>• deall ac ymateb i destunau llenyddol ac anllenyddol gan adalw manylion perthnasol<br>• dadansoddi a gwerthuso testunau amrywiol gan gynnwys y modd maent yn cyflwyno gwybodaeth, syniadau neu themâu trwy ddewis iaith, ffurf, technegau a nodweddion gramadegol a strwythurol. |
| 4.1.2 Cyfuno a chrynhoi gwybodaeth | Dylai dysgwyr allu:<br>• cyfuno a chrynhoi gwybodaeth o amrywiaeth o destunau<br>• defnyddio amrywiol ddulliau darllen ac ymateb mewn ffyrdd gwahanol i amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog<br>• defnyddio sgiliau casglu, dehongli a chysylltu syniadau<br>• aralleirio, crynhoi a dehongli y testunau yn effeithiol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 4.1.3 Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol) | Dylai dysgwyr allu:<br>• cyflwyno **un** dasg ysgrifenedig, o ddewis o ddwy, at bwrpasau a chynulleidfaoedd gwahanol ac mewn ffurfiau gwahanol, gan gynnwys:<br>  • adroddiad papur newydd<br>  • atgofion<br>  • araith<br>  • bwletin newyddion<br>  • bwletin i'r wasg<br>  • dyddiadur<br>  • e-bost<br>  • naratif personol<br>  • portread<br>  • stori<br>  • ysgrifennu am brofiadau<br>• defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau / gramadeg priodol, atalnodi a sillafu cywir<br>• ysgrifennu'n gywir wrth iddynt brawfddarllen a chywiro a/neu drosi testun byr. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 4b (Cymhwyster Dwyradd yn unig)

**Cysylltiadau Ieithyddol (dwyradd yn unig)**
Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr
Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
22.5% o'r cymhwyster
90 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi
- cyfuno a chrynhoi gwybodaeth
- ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol).

Bydd dysgwyr yn archwilio cysylltiadau ieithyddol rhwng testunau y maent yn eu darllen ac yn eu cynhyrchu o fewn yr uned hon. Trwy ymateb i amrywiaeth o destunau ac archwilio'r cysylltiadau ieithyddol, cynigir cyfleoedd iddynt ddatblygu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau ynghyd â phwrpas testunau. Anogir dysgwyr i ddod yn fwy aeddfed yn eu dealltwriaeth o destunau ac wrth fynegi eu hunain trwy iaith a thrwy hynny i ddod yn gyfathrebwyr effeithiol.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">4.1</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>4.1.1 Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi<br>4.1.2 Cyfuno a chrynhoi gwybodaeth<br>4.1.3 Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol)</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Gwybodaeth Bellach</td></tr>
<tr><td>4.1.1 Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi</td><td>Dylai dysgwyr allu:<br>• deall ac ymateb i destunau llenyddol ac anllenyddol gan adalw manylion perthnasol<br>• dadansoddi a gwerthuso testunau amrywiol gan gynnwys y modd maent yn cyflwyno gwybodaeth, syniadau neu themâu trwy ddewis iaith, ffurf, technegau a nodweddion gramadegol a strwythurol.</td></tr>
<tr><td>4.1.2 Cyfuno a chrynhoi gwybodaeth</td><td>Dylai dysgwyr allu:<br>• cyfuno a chrynhoi gwybodaeth o amrywiaeth o destunau<br>• defnyddio amrywiol ddulliau darllen ac ymateb mewn ffyrdd gwahanol i amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog<br>• defnyddio sgiliau casglu, dehongli a chysylltu syniadau<br>• aralleirio, crynhoi a dehongli'r testunau yn effeithiol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 4.1.3 Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol) | Dylai dysgwyr allu:<br>• cyflwyno **dwy** dasg ysgrifenedig at bwrpasau a chynulleidfaoedd gwahanol ac mewn ffurfiau gwahanol, gan gynnwys:<br>  • adroddiad papur newydd<br>  • atgofion<br>  • araith<br>  • bwletin newyddion<br>  • bwletin i'r wasg<br>  • dyddiadur<br>  • e-bost<br>  • naratif personol<br>  • portread<br>  • stori<br>  • ysgrifennu am brofiadau<br>  bydd y dasg gyntaf yn dasg orfodol a'r ail dasg o ddewis o ddwy<br>• defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau / gramadeg priodol, atalnodi a sillafu cywir<br>• ysgrifennu'n gywir wrth iddynt brawfddarllen a chywiro a/neu drosi testun byr. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 5 (Cymhwyster Dwyradd yn unig)

**Ymateb a Chreu (dwyradd yn unig)**
Asesiad di-arholiad
Trafodaeth grŵp yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi print: (hyd at 10 munud o hyd)
Tasg greadigol ysgrifenedig yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi print: (500 – 1,000 o eiriau)
20% o'r cymhwyster
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
60 marc

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw:

- gwrando ar safbwyntiau ei gilydd ac ymateb iddynt
- rhyngweithio ag eraill gan ofyn cwestiynau a chasglu syniadau
- defnyddio iaith lafar ac ysgrifenedig i sicrhau eglurder, pwrpas ac effaith gyda gramadeg a mynegiant cywir
- ysgrifennu i gyfathrebu'n glir ac effeithiol gan addasu'r cywair a'r ffurfiau yn effeithiol a dewis geirfa ac arddull sy'n briodol i'r dasg.

Yn yr uned hon anogir dysgwyr i ddatblygu eu doniau dadansoddi wrth ymateb i amryw o ddeunyddiau ysgogi print a ddefnyddir fel sbardun i'w trafodaethau. Byddant yn cael cyfle i ddatblygu eu safbwyntiau, crynhoi gwybodaeth a chyfathrebu'n hyderus ar lafar. Law yn llaw â hyn byddant yn cael cyfle i ddatblygu eu creadigrwydd trwy arbrofi gydag arddulliau ysgrifenedig amrywiol. Cefnogir dysgwyr i siarad ac ymateb yn effeithiol yn y drafodaeth grŵp ac i greu tasg ysgrifennu creadigol wedi'i hysbrydoli gan un o'r deunyddiau ysgogi print. Bydd cyfleoedd ar gyfer siarad ac ysgrifennu yn ysbrydoli dysgwyr i ddod yn feddylwyr beirniadol a chyfranwyr creadigol wrth iddynt ymateb i ystod o ddeunyddiau ysgogol.

### Meysydd cynnwys

| **5.1 Ymateb a Chreu** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>5.1.1 Gwrando ar safbwyntiau ei gilydd ac ymateb iddynt<br>5.1.2 Rhyngweithio ag eraill gan ofyn cwestiynau a chasglu syniadau<br>5.1.3 Defnyddio iaith lafar ac ysgrifenedig i sicrhau eglurder, pwrpas ac effaith gyda gramadeg a mynegiant cywir<br>5.1.4 Ysgrifennu mewn ffordd greadigol i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gan addasu tôn a ffurfiau a dewis geirfa ac arddull sy'n briodol i'r dasg. | |
| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
| 5.1.1 Gwrando ar safbwyntiau ei gilydd ac ymateb iddynt | Dylai dysgwyr allu:<br>• deall syniadau a gwybodaeth, gan adalw manylion perthnasol a chyfryngu drwy aralleirio, crynhoi a dehongli prif bwyntiau<br>• dod i gasgliadau, gan gynnwys nodi safbwyntiau a phwrpasau<br>• mynegi barn a syniadau rhesymegol, dod i gasgliadau a'u cefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• ymgysylltu'n adeiladol â thestunau, syniadau a safbwyntiau gwahanol<br>• deall a defnyddio terminoleg ieithyddol a llenyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Bydd gofyn i ddysgwyr:<br>• ymateb i ddeunyddiau ysgogi print a ryddhawyd gan CBAC (bydd CBAC yn darparu tri dewis o ddeunyddiau ysgogi print i ganolfannau.)<br>• cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at 10 munud o hyd<br>• siarad a gwrando mewn grwpiau o 3.<br><br>Gall carfanau gwahanol o ddysgwyr o fewn canolfan ddewis ysgogiad print gwahanol fel sbardun i'w trafodaethau. |
| 5.1.2 Rhyngweithio ag eraill gan ofyn cwestiynau a chasglu syniadau | Dylai dysgwyr allu:<br>• dadansoddi a gwerthuso cynnwys y testunau a'r safbwyntiau'n feirniadol, gan gynnwys y modd y maent yn cyflwyno gwybodaeth, syniadau neu themâu trwy ddewis iaith, ffurf, technegau, a nodweddion gramadegol a strwythurol<br>• cysylltu'r hyn maen nhw'n ei ddarllen â'i gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, daearyddol a hanesyddol ac ystyried sut mae hyn yn llywio dehongliad<br>• cynnal ymchwil i lywio dealltwriaeth o bwnc, gan ystyried a thrafod dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth. |
| 5.1.3 Defnyddio iaith lafar ac ysgrifenedig i sicrhau eglurder, pwrpas ac effaith gyda gramadeg a mynegiant cywir | Dylai dysgwyr allu:<br>• deall a defnyddio terminoleg ieithyddol a llenyddol i gyfathrebu gwybodaeth, dealltwriaeth, syniadau, barn a theimladau yn glir ac yn gywir<br>• dod i gasgliadau a'u cefnogi â thystiolaeth berthnasol. |
| 5.1.4 Ysgrifennu mewn ffordd greadigol i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gan addasu tôn a ffurfiau a dewis geirfa ac arddull sy'n briodol i'r dasg | Dylai dysgwyr allu:<br>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau a thechnegau llenyddol ac ieithyddol i ennyn diddordeb darllenwyr<br>• datblygu ymatebion estynedig dros gyfnod o amser, drwy gynllunio, drafftio, gwerthuso a mireinio gwaith.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut i ddewis ac addasu iaith, strwythur brawddegau, gramadeg a chystrawen addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a phwrpasau, gan gynnwys cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.<br><br>Bydd gofyn i ddysgwyr:<br>• ysgrifennu tasg greadigol yn deillio o un o'r deunyddiau ysgogi print a ryddhawyd gan CBAC (rhwng 500 a 1,000 o eiriau)<br>• dewis un o'r ffurfiau canlynol:<br>    • blog<br>    • dyddiadur<br>    • portread<br>    • sgript<br>    • stori<br>    • ymson |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 6 (Cymhwyster Dwyradd yn unig)

**Cyfleu Ystyr (dwyradd yn unig)**
Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
22.5% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad
- ymateb i amrywiaeth o ffurfiau/arddulliau ysgrifenedig llenyddol/anllenyddol a'u dadansoddi
- cymharu a chrynhoi gwybodaeth.

Anogir dysgwyr i dynnu ar eu dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy astudio casgliad o straeon byrion ac amryw o destunau nas gwelwyd o'r blaen. Gall y testunau hyn fod yn destunau llenyddol ac anllenyddol. Bydd modd i ddysgwyr gymharu sut mae testunau o amrywiol ffurfiau yn cyfleu ystyr o ran cynnwys ac arddull. Mae'n gyfle i ddysgwyr adnabod a gwerthfawrogi sut mae awduron yn cyfleu ystyr ac yn dal sylw'r gynulleidfa ar draws ystod o ffurfiau ysgrifenedig. Mae'r profiadau hyn yn annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bwrpas a swyddogaeth testunau amrywiol ac i ddatblygu hyder wrth fynegi eu hunain trwy iaith.

**Meysydd cynnwys**

| **6.1** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol: | |
| 6.1.1 | Ymateb yn feirniadol i stori fer er mwyn gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad |
| 6.1.2 | Adnabod a gwerthfawrogi arddull awduron |
| 6.1.3 | Ymateb i gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testunau a sut gallant lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectifau |
| 6.1.4 | Ymateb yn feirniadol i destunau amrywiol |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cynnwys | Gwybodaeth Bellach |
|---|---|
| 6.1.1 Ymateb yn feirniadol i stori fer er mwyn gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad | Bydd gofyn i ddysgwyr astudio'r **tair** stori fer ganlynol:<br>• **Plant** Dylan Iorwerth<br>• **Torri Arferiad?** Gwenno Davies<br>• **Yr Wy** Caryl Lewis.<br><br>Bydd detholiad o **un** o'r straeon byrion uchod yn ymddangos yn y papur arholiad. Ni fydd canolfannau'n gwybod ymlaen llaw pa stori fer fydd yn ymddangos yn y papur arholiad.<br><br>Dylai dysgwyr allu:<br>• adalw ffeithiau manwl am ddigwyddiadau a chymeriadau'r straeon byrion wrth iddynt ymateb i wahanol sefyllfaoedd<br>• ymateb yn sensitif a manwl i'r straeon byrion er mwyn gwerthfawrogi crefft yr awduron wrth lunio'r cynnwys, themâu, plot a'r cymeriadau<br>• trafod cymhelliant yr awduron wrth ysgrifennu'r straeon byrion a'r defnydd o themâu wrth gyfleu syniadau. |
| 6.1.2 Adnabod a gwerthfawrogi arddull awduron | Dylai dysgwyr allu:<br>• dadansoddi nodweddion ffurf, cynllun ac awyrgylch ynghyd â'r nodweddion arddull a ddefnyddir gan yr awduron<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>• defnyddio ystod o strategaethau i adnabod ystyr ar draws y testunau<br>• gwerthuso cynnwys ynghyd ag effaith dewisiadau iaith a thechnegau ar y darllenydd gan ddefnyddio detholiad cadarn o fanylion perthnasol o'r testunau. |
| 6.1.3 Ymateb yn feirniadol i destunau amrywiol | Dylai dysgwyr allu:<br>• ymateb yn feirniadol i'r hyn maent wedi'i ddarllen gan ystyried cynnwys, iaith ac arddull<br>• ysgrifennu'n gywir, yn eglur a graenus gan ddangos ystod o adnoddau iaith. |
| 6.1.4 Ymateb i gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol testunau a sut gallant lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectifau | Dylai dysgwyr allu:<br>• darllen gydag empathi i barchu a gwerthfawrogi'n feirniadol y persbectif sydd gan wahanol bobl, gan ddefnyddio hyn i ffurfio'u casgliadau ystyriol eu hunain<br>• gwerthfawrogi testunau, gan ddangos empathi wrth werthuso gwahanol ddehongliadau o'r testun hwnnw, gan gynnwys eu dehongliad eu hunain. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- archwilio ac ymateb i gyd-destunau lleol a chyd-destunau Cymreig ehangach
- astudio testunau sy'n tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd
- ystyried cynnwys a deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymdeithas a'r byd ehangach
- darllen a gwrando ar amrywiadau mewn iaith (cywair, acenion, tafodiaith ac ati)
- defnyddio dealltwriaeth o grefft awduron a chonfensiynau ffurfiau i lywio'r gwaith o lunio eu testunau llafar ac ysgrifenedig eu hunain
- datblygu ymatebion creadigol mewn ystod o gyd-destunau ysgrifenedig a llafar
- trawsieithu neu gyfryngu o un iaith i iaith arall
- defnyddio technoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster
- datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

Yn y Canllawiau Addysgu ceir rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd sydd o fewn y cymhwyster hwn i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Gwelir pa gyfleoedd sydd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol yn Atodiad A.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**

Deall ac ymateb

i. Deall ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o destunau llafar, gweledol ac ysgrifenedig, gan ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau a datblygu syniadau.
ii. Gwneud cymariaethau ac egluro cysylltiadau o fewn a rhwng testunau ysgrifenedig a chyfathrebu llafar, gan gyfuno a chrynhoi gwybodaeth, syniadau a themâu fel y bo'n briodol.
iii. Egluro sut mae iaith, strwythur a ffurf yn cyfrannu at gyflwyno gwybodaeth, syniadau a themâu mewn testunau ysgrifenedig ac ar lafar a sut mae'r rhain yn effeithio ar y darllenydd/gwyliwr/gwrandäwr.
iv. Deall testunau ysgrifenedig, llafar a gweledol yn eu cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut y gall y rhain lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectifau.

**AA2**

Mynegi a chyfathrebu

i. Cyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn ddychmygus, gan ddefnyddio ffurfiau, geirfa a thechnegau i ennyn diddordeb y darllenydd/gwrandäwr.
ii. Addasu cyfathrebu trwy ddewis cywair, geirfa a thechnegau sy'n briodol i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd.
iii. Trefnu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ieithyddol a strwythurol i gefnogi cydlyniant a chydlyniad cyffredinol.
iv. Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, â gramadeg priodol ac, mewn cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu cywir.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned yn y cymhwyster gradd unigol.

| | **AA1** | **AA2** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 10% | 30% |
| Uned 2 | 10% | 10% | 20% |
| Uned 3 | 10% | 10% | 20% |
| Uned 4a | 10% | 20% | 30% |
| Pwysoli cyffredinol | **50%** | **50%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned yn y cymhwyster dwyradd.

| | **AA1** | **AA2** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 5% | 15% |
| Uned 2 | 5% | 5% | 10% |
| Uned 3 | 5% | 5% | 10% |
| Uned 4b | 7.5% | 15% | 22.5% |
| Uned 5 | 10% | 10% | 20% |
| Uned 6 | 12.5% | 10% | 22.5% |
| Pwysoli cyffredinol | **50%** | **50%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

**Uned 2: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr:
- gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at **15** munud o hyd
- siarad a gwrando mewn grwpiau o **3**
- ffocysu eu trafodaeth ar hunaniaeth o fewn y testun gweledol dewisol yn unol â'r cwestiwn a ryddhawyd gan CBAC.

Gall cwestiynau fod yn seiliedig ar:
- gymeriadau
- plot/naratif
- themâu.

Bydd yr un cwestiwn yn parhau am ddwy flynedd. Mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio'r cwestiwn cywir ar gyfer bob cyfres.

**Ymgymryd â'r dasg**
Dylai athrawon ryddhau'r dasg asesu i'r dysgwyr tua **5 awr** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i baratoi'r testunau gyda'r dysgwyr.

Caniateir i ddysgwyr gymryd i mewn i'r asesiad hyd at **un** ochr tudalen A4 o bwyntiau bwled byr (ffont maint 11 neu uwch) y maent wedi'u paratoi ymlaen llaw. Gall y pwyntiau bwled gynnwys dyfyniadau perthnasol. Rhaid cyflwyno'r dudalen gyda'r recordiad o'r dasg asesu.

**Rôl yr athro yn ystod y drafodaeth lafar**
Yn ystod y drafodaeth grŵp dylai'r athro roi cyfle i'r grŵp drafod yn annibynnol.

Dylid cyfyngu cymorth athrawon i esboniad o dasgau. Os defnyddir ymyriad athro/athrawes, er enghraifft i annog dysgwr, dylid nodi hyn a'i gymryd i ystyriaeth pan fydd yr asesiad yn cael ei wneud.

Os oes angen, dylai'r athro:
- ysgogi trafodaeth
- annog newid cyfeiriad ar gyfer y drafodaeth
- gofyn i ddysgwr ddarparu tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ymateb.

**Uned 3: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr:

**Tasg 1: Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi**
- ymateb i o leiaf **6** cerdd
- ymateb i gerddi gan o leiaf **3** bardd gan gynnwys **1** bardd G20 ac **1** bardd G21
- ymateb i gerddi caeth, rhydd a phenrhydd.

**Tasg 2: Cyflwyniad Unigol**
- siarad am **5** munud (mewn ymateb i'r thema a osodir gan CBAC).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Tasg 1**

**Ymgymryd â'r dasg**
Bydd CBAC yn rhyddhau cwestiwn yn cynnwys thema benodol. Bydd y thema o fewn y cwestiwn yn cael ei newid bob **dwy** flynedd. Mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio'r thema gywir ar gyfer pob cyfres.

Dylai athrawon roi'r dasg i'r dysgwyr tua **5 awr** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i baratoi'r testunau gyda'r dysgwyr.

Gall athrawon drafod a rhoi cyngor cyffredinol i ddysgwyr. Gellir gosod ymarferion/tasgau byrion, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w cwblhau gan y dysgwyr yn y dosbarth i'w cynorthwyo i ddeall natur y dasg. Gall dysgwyr weithio'n unigol neu gydweithio â'i gilydd wrth gwblhau'r ymarferion hyn.

Caniateir i ddysgwyr gymryd i mewn i'r asesiad hyd at **un** ochr tudalen A4 o bwyntiau bwled byr (ffont maint 11 neu uwch) y maent wedi'u paratoi ymlaen llaw. Caniateir pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol ar gyfer y dasg. Dylid caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron/thesawrws wrth gwblhau'r dasg.

Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd.

Neilltuir 2 awr 30 munud i gwblhau'r dasg.

**Tasg 2**

**Gosod y dasg:**
Ar gyfer y dasg hon, dylai canolfannau roi cyfle i ddysgwyr gymryd rhan yn unigol, trwy gyflwyno gwybodaeth am unrhyw agwedd neu agweddau sy'n ymwneud â thema Tasg 1. Mae rhyddid gan y dysgwr i ddewis yr agwedd neu agweddau a drafodir. Disgwylir y bydd cyflwyniad unigol yn para hyd at **5** munud, gan gynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Ymgymryd â'r dasg**
Dylid rhoi **5 awr** i ddysgwyr baratoi ar gyfer y dasg ymlaen llaw.

Gall athrawon gynnig arweiniad a chyngor cyffredinol i ddysgwyr ynghylch cyflawni'r dasg.

Gall dysgwyr:
- ddefnyddio gwrthrychau neu ddelweddau fel cymorth wrth gyflwyno gwybodaeth am eu pwnc dewisol
- defnyddio pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol

Dim ond ar ddiwedd y cyflwyniad y caniateir i ddysgwyr eraill ofyn cwestiynau.

**Rôl yr athro**
Yn ystod y cyflwyniad ymchwil unigol, dylai'r athro:
- roi cyfle i'r dysgwyr gyflwyno'n annibynnol
- sicrhau nad yw'r dysgwr yn darllen ei gyflwyniad
- torri ar draws neu annog dim ond pan fo angen
- rheoli cwestiynau a ofynnir i'r dysgwr.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Uned 5: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr:

**Tasg 1: Ymateb a Rhyngweithio**
- ymateb i ddeunyddiau ysgogi print a osodwyd gan CBAC
- cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at **10** munud o hyd
- siarad a gwrando mewn grwpiau o **3**.

**Tasg 2: Ysgrifennu'n Greadigol**
- ysgrifennu tasg greadigol yn deillio o'r deunyddiau ysgogi print (rhwng 500 a 1,000 o eiriau)
- dewis **un** o'r ffurfiau canlynol:
  - blog
  - dyddiadur
  - portread
  - sgript
  - stori
  - ymson.

**Tasg 1**
**Ymgymryd â'r dasg**
Bydd CBAC yn rhyddhau deunyddiau ysgogi print yn flynyddol. Mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio'r deunyddiau cywir ar gyfer pob cyfres.

Dylai athrawon roi'r dasg i'r dysgwyr tua **5 awr** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i drafod y deunyddiau ysgogi print gyda'r dysgwyr.

Dylid gofyn i'r dysgwyr drafod y pwnc a ddewiswyd ganddynt gan fynegi eu barn bersonol. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen.

**Rôl yr athro**
Yn ystod y drafodaeth dylai'r athro/athrawes roi cyfle i'r grŵp drafod yn weddol annibynnol.

Dylid cyfyngu cefnogaeth yr athro/athrawes i egluro tasgau yn unig. Os yw athro/athrawes yn ymyrryd er enghraifft i brocio dysgwr, dylid cofnodi hyn a chymryd hyn i ystyriaeth wrth asesu.

Os bydd angen dylai athro/athrawes:
- sbarduno trafodaeth
- hybu newid y drafodaeth
- gofyn i ddysgwr gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ymateb.

**Tasg 2**

**Ymgymryd â'r dasg**
Dylai athrawon roi'r dasg i'r dysgwyr tua **wythnos** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Yn ystod y cyfnod creu gall athrawon drafod a chynnig cyngor cyffredinol i'r dysgwyr. Caniateir i ddysgwyr adolygu ac ailddrafftio gwaith. Caniateir i'r dysgwyr gyflawni'r dasg yn electronig. Caniateir hyd at **3 awr** i gwblhau'r dasg.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, mae'r athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y JCQ Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru a dyfarnu

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu di-arholiad (Uned 2, Uned 3 ac Uned 5) ar gael yn ystod y gyfres haf yn unig bob blwyddyn, gyda chyfleoedd asesu arholiad (Uned 1, Uned 4a, Unit 4b ac Uned 6) ar gael yn ystod y gyfres haf ac ym mis Tachwedd bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.  Noder mai ar gyfer ymgeiswyr ôl-16 yn unig y mae cyfle cyfnewid mis Tachwedd ar gael.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2026.

Bydd Uned 4b ar gael am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Bydd Uned 4a, Uned 5 ac Uned 6 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2027.

<u>Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 oed neu iau ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Pennir y rheol derfynol ar 30% o'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd a Gradd Unigol) i ymgeiswyr Cyn-16, a rhaid cynnwys arholiad yn hyn.

Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 30%, marciau yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 30% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd’. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau arholiad a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

<u>Ymgeiswyr Ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Nid oes rheol derfynol sy'n berthnasol i Ymgeiswyr ôl-16 ar gyfer TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd a Gradd Unigol).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddwy ymgais ddiweddaraf wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

**Trawsnewid canlyniad Dwyradd yn ganlyniad Gradd Unigol**

Gall ymgeiswyr ôl-16* ofyn am gael trawsnewid canlyniad Dwyradd yn ganlyniad Gradd Unigol.

Rheolau'r trawsnewid hwn yw:

- Rhaid i ymgeisydd ôl-16* fod wedi cyfnewid am y Dwyradd cyn bod modd gwneud cais am y Gradd Unigol.
- Defnyddir y perfformiad yn Uned 4b y Ddwyradd i ddirprwyo dros Uned 4a y Radd Unigol at ddibenion y trawsnewid hwn.
- Nid yw'r llwybr hwn yn cael ei gynnig ar gyfer ymgeiswyr cyn 16 oed*.
- Gall canolfan wneud cais trawsnewid o'r fath dros gyfnod oes y fanyleb.
- Rhaid i ganolfan gael caniatâd ymgeiswyr a sicrhau eu bod nhw'n gymwys cyn cyflwyno cais trawsnewid.
- Ni fydd ymgeiswyr yn gallu gwneud y canlynol:
  - i) defnyddio uned 4a ar gyfer cyfnewid Dwyradd
  - ii) trawsnewid o ganlyniad Gradd Unigol i ganlyniad Dwyradd.
- Ni all ymgeiswyr dderbyn canlyniad ar gyfer y Gradd Unigol a'r Dwyradd mewn un gyfres.

* Mae'r ymgeiswyr sydd wedi cyfnewid yn haf blwyddyn 11, ond nad ydynt yn 16 oed, yn gymwys.

Bydd trawsnewidiadau wedi'u cymeradwyo yn dileu canlyniad y Dwyradd ac yn cyhoeddi canlyniad Gradd Unigol newydd i'r ymgeisydd.

Bydd gweithdrefnau cyflwyno ceisiadau trawsnewid ar gael i ganolfannau cyn y dyfarniad cyntaf.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Nodir y codau cofrestru isod:

| | | **Codau Cofrestru** |
|---|---|---|
| Uned 1 | Naratif - #Helynt | 3030NA |
| Uned 1 | Naratif - Jac | 3030NB |
| Uned 1 | Naratif - Llechi | 3030NC |
| Uned 1 | Naratif - Llyfr Glas Nebo | 3030ND |
| Uned 1 | Naratif - O Ran | 3030NE |
| Uned 1 | Naratif - Tom | 3030NF |
| Uned 2 | Hunaniaeth | 3030N2 |
| Uned 3 | Agweddau | 3030N3 |
| Uned 4a (Gradd Unigol) | (Gradd Unigol) Cysylltiadau Ieithyddol | 3030NG |
| Uned 4b (Dwyradd) | (Dwyradd) Cysylltiadau Ieithyddol | 3030NH |
| Uned 5 (Dwyradd) | Ymateb a Chreu | 3030N5 |
| Uned 6 (Dwyradd) | Cyfleu Ystyr | 3030N6 |
| **CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymreag (Gradd Unigol)** | | 3030CS |
| **CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymreag (Dwyradd)** | | 3030CD |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Adroddir cymwysterau dwyradd TGAU ar raddfa wyth pwynt o A*A* - GG, ac A*A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Cymhwyster Gradd Unigol:

| | UCHAF | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Uned 2** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Uned 3** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Uned 4a** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Dyfarniad pwnc** | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 | 120 | 80 |

Cymhwyster Dwyradd:

| | UCHAF | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Uned 2** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Uned 3** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Uned 4** | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| **Uned 5** | 160 | 144 | 128 | 112 | 96 | 80 | 64 | 48 | 32 |
| **Uned 6** | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| **Dyfarniad pwnc** | 800 | 720 | 640 | 560 | 480 | 400 | 320 | 240 | 160 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4a | Uned 4b | Uned 5 | Uned 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Themâu trawsbynciol | | | | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agweddau Cynaliadwyedd mewn cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Amrywiaeth | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | | | | |
| Gwrando | | ✓ | | | | ✓ | |
| Darllen | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4a** | **Uned 4b** | **Uned 5** | **Uned 6** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siarad | | ✓ | ✓ | | | ✓ | |
| Ysgrifennu | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | | | | | | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | | | | | | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | | | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | | | | | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4a** | **Uned 4b** | **Uned 5** | **Uned 6** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | | | | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | ✓ | ✓ | | | ✓ | |
| Cynhyrchu | | | | | | | |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | | | | | | |
| Sgiliau Cyfannol | | | | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024